Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf ▪ Your ref:
Fy nghyf ▪ My ref:
Dyddiad ▪ Date: 05-02-24

Gofynner am ▪ Please ask for: Gareth Morgans
Llinell Uniongyrchol ▪ Direct Line: 01267 246522
E-Bost Uniongyrchol ▪ Direct E-Mail: questionECS@sirgar.gov.uk

Annwyl Riant/Gofalwr,

Ysgrifennwn i ofyn am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad i fynd i'r afael â mater sylweddol sydd wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y misoedd diwethaf.

Fel Gwasanaeth Addysg yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnwys ein hysgolion, credwn fod perthynas gadarnhaol, broffesiynol ac adeiladol gyda rhieni a gofalwyr yn hanfodol i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Credwn fod llwyddiant ein hysgolion ac addysg ein plant yn dibynnu ar bartneriaeth gref rhwng holl aelodau'r gymuned ysgol: dysgwyr, rhieni, gofalwyr, staff a llywodraethwyr. Rhaid i'r bartneriaeth hon fod yn seiliedig ar berthynas gwrtais, gadarnhaol a pharchus.

Rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni yn ddiweddar i wella ymddygiad a phresenoldeb yn ein hysgolion. Trwy weithio gyda'n gilydd, rydym wedi sicrhau gwelliant a gwell ymgysylltiad â dysgu.

Fodd bynnag, rydym ar hyn o bryd yn profi ymddygiad annerbyniol gan leiafrif bach iawn o rieni/gofalwyr. Mae ein staff addysg yn gweithio yn ein hysgolion a'n gwasanaethau i ddarparu'r addysg orau bosibl i'n dysgwyr talentog ac rydym yn disgwyl i ysgolion fod yn lleoedd trefnus a diogel i ddysgwyr, staff, ymwelwyr ac eraill. Yn anffodus, mae rhai o'n harweinwyr ysgol, athrawon, staff cymorth a swyddogion wedi profi cam-drin geiriol, trais ac ymddygiad bygythiol gan rai rhieni/gofalwyr. Nid yw hyn yn dderbyniol, a dylid trin ein holl staff â pharch.

Rwy'n gwerthfawrogi y gall fod gan rieni/gofalwyr ar brydiau bryderon am addysg eu plentyn ac mae prosesau clir, yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol, i ddelio â materion o'r fath. Mae gan bob ysgol Bolisi Cwynion sy'n esbonio'r prosesau hyn a sut y gall rhieni/gofalwyr drafod eu pryderon. Dylid gwneud hyn bob amser mewn modd adeiladol a pharchus gan y bydd gan bawb fuddiannau gorau'r dysgwr mewn golwg.

Mae gan bob aelod o gymuned yr ysgol hawl i ddisgwyl bod eu hysgol yn lle diogel i weithio a dysgu ynddo. Yn y cyd-destun hwn, ni fydd trais, ymddygiad bygythiol, nac aflonyddu mewn unrhyw gyd-destun yn erbyn staff yr ysgol neu aelodau eraill o gymuned yr ysgol yn cael eu goddef.

Pan fydd ymddygiad o'r fath yn digwydd, byddwn yn ymateb yn bendant ac yn cymryd camau i ddelio ag ef. Gall hyn gynnwys cysylltu â'r Heddlu neu asiantaethau eraill i benderfynu ar yr ymateb priodol i ddigwyddiad.

Yn ddiffuant,

*Glynog Davies*
Cyng. Glynog Davies
Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

*Gareth Morgans*
Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English